# Rôl Ddisgrifiad o Rôl Wirfoddol Prosiect Cymorth Cymunedol Gwrando a Chysylltu

Mae Gwrando a Chysylltu yn wasanaeth gwrando dros y ffôn ar gyfer pobl hŷn sy’n teimlo’n unig ac ynysig. Mae’r gwasanaeth yn darparu cyfle i unigolion siarad am faterion sy’n bwysig iddyn nhw gan deimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw.Bydd hyn yn rhoi cyfle i bobl ystyried os oes angen cefnogaeth arnynt, a deall beth sy’n rhoi pwrpas, gobaith a theimlad o berthyn iddyn nhw.

Prif rôl Gwirfoddolwr **Gwrando a Chysylltu** yw:

- Trin galwadau mewn ffordd empathetig, gan gyfeirio unigolion pan maen nhw’n gofyn am hynny
- Siarad â gwirfoddolwyr mewn ffordd gyfrinachol a thosturiol heb eu barnu, a thrafod y materion sy’n bwysig iddyn nhw
- Rhoi amser a chyfle i'n cleientiaid i siarad, a gwrando ar eu straeon a'u pryderon, a chynnig cefnogaeth er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau am y dyfodol
- Gweithio o’ch cartref
- darparu adnoddau defnyddiol a gwybodaeth ddefnyddiol lle bo hynny'n briodol

**Ymrwymiad:**

- O leiaf un sesiwn o dair awr yr wythnos. Gallwn fod yn hyblyg er mwyn cyd-fynd â'ch amserlen.

**Gofynion:**

- Mae’n rhaid eich bod chi’n hŷn na 18 oed
- Mae’n rhaid bod gennych chi ffôn clyfar / gliniadur / tabled gyda chlustffonau i lawrlwytho'r ap â’r system ffôn
- Mae’n rhaid i chi gymryd rhan ym mhob sesiwn hyfforddi a goruchwyliaeth er mwyn gwella eich dealltwriaeth a'ch darpariaeth o'r rôl
- Byddwn yn darparu gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Fel gwirfoddolwr, byddwch yn derbyn cefnogaeth ac amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol a dewisol rhagorol er mwyn gwella a datblygu eich sgiliau. Beth bynnag yw eich rheswm dros wirfoddoli, byddwn yn gweithio gyda chi i nodi'r cyfleoedd sydd eu hangen arnoch er mwyn gwireddu a chyflawni'ch nodau.

Gallwch wneud gwahaniaeth anhygoel drwy wrando ar rywun a allai fod yn dioddef teimladau o unigrwydd. Os bydd gennych chi unrhyw bryderon, byddwn ni’n eich cefnogi.

Gall gwirfoddoli fod yn brofiad gwerth chweil sy'n cynnig boddhad personol wrth i chi helpu eraill. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn Wirfoddolwr Gwrando a Chysylltu, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod i ddarganfod mwy am y cyfle hwn neu sganiwch y cod QR uchod i gofrestru eich diddordeb.

www.agecymru.org.uk

07425 422 683

CAPlisten@agecymru.org.uk

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Partneriaeth age Cymru

Ionawr 2024 © Age Cymru